# 2023-2038



# Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CRhAC)







Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
www.merthyr.gov.uk

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
# Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CRhAC) 2023-2038

## Mynegai


1) **Rhagair gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr**

2) **Y Cyd-destun Strategol ac Arweinyddiaeth**

3) **Datganiad Gweledigaeth**

4) **Prosiectau Mawr**

5) **Cynllun Gweithredu**

6) **Targedau a Dangosyddion Perfformiad**

# 1. Rhagair gan yr Arweinydd a’r Prif Weithredwr

Fel Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rydyn ni’n eiddgar i rannu ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd â chi.

Bwriad y Cynllun hwn yw llywio’r modd y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y Portffolio Eiddo er mwyn iddo gyd-fynd â blaenoriaethau’r gorfforaeth a gofynion y gwasanaeth. Mae’n amlinellu lle mae angen buddsoddiad priodol mewn prosiectau cyfalaf a’r ffordd y dylid cynnal y Portffolio fel ei fod yn effeithlon, yn addas i’r diben ac yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch.

Ar ôl goddef cyfnod heriol tu hwnt, rydyn ni’n llwyr werthfawrogi’r pwysigrwydd o ddefnyddio ein hasedau eiddo yn effeithiol wrth gefnogi ein hamcanion llesiant. Ni fu hi erioed mor bwysig i’r sefydliad edrych ar ffyrdd o weithio’n gallach a gwneud pethau’n wahanol, gan wella’r defnydd o’n hasedau.

Mae rheoli asedau’n dda yn cynorthwyo ein gallu i gyflawni amcanion ar gyfer y dechrau gorau i fywyd, bywyd gwaith, llesiant amgylcheddol a byw’n dda. Bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn darparu adeiladau newydd a gwell er mwyn ein helpu ni i wella safonau addysg ar gyfer y dyfodol. Bydd rheoli ein cartrefi gofal yn effeithiol a darparu cyfleusterau tai ExtraCare ychwanegol yn cryfhau’r gofal cymdeithasol, tra bydd ein cynlluniau uchelgeisiol ac arloesol ar gyfer canol ein trefi a’n hasedau treftadaeth yn cefnogi ein hadferiad economaidd.

Fel sefydliad, rydyn ni wedi ymrwymo’n llwyr i leihau allyriadau carbon o’n hadeiladau a hyrwyddo cynlluniau ynni adnewyddadwy. Bydd hyn yn ein helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd a diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.



**Ellis Cooper**

**Y Prif Weithredwr**



**Y Cynghorydd Geraint Thomas**

**Arweinydd y Cyngor**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful **/ Merthyr Tydfil County Borough Council**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod eiddo'n rhan hanfodol o gyflawni'r Cynllun Llesiant Corfforaethol ac mae'r delweddau gweledol a ganlyn yn dangos y ffordd y mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn gysylltiedig â'r strategaeth hon ac yn ei chefnogi.

| Thema Llesiant | Amcan | Deilliant Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Merthyr Tudful uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ddysgu | Byddwn yn cryfhau'r ffordd yr ydyn ni'n galluogi pobl i dyfu a chyrraedd eu potensial. | Darparu amrywiaeth o gyfleoedd i holl drigolion Merthyr Tudful fel y gallant ennill y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu nodau mewn bywyd. |
| Merthyr Tudful iachach | Byddwn yn grymuso pobl i fyw bywydau annibynnol ac urddasol. | Cefnogi iechyd a llesiant emosiynol a chorfforol plant ac oedolion. |
| Merthyr Tudful diogel a llewyrchus | Byddwn yn cefnogi'r modd y mae ein heconomi yn adfer ac yn tyfu. | Amrywio ein heconomi leol a chynyddu'i chydnerthedd ar gyfer heriau'r dyfodol drwy helpu i greu'r math cywir o fusnesau, gyda chefnogaeth y math cywir o seilwaith busnes. |
| Merthyr Tudful glân a gwyrdd | Byddwn yn cefnogi'r dasg o greu amgylchedd glân a gwyrdd yn awr ac yn y dyfodol. | Gweithio gyda chymunedau i gynnal a gwella'r amgylchedd. |

Mae hyn yn ein helpu i gyfrannu at ffyrdd o gyflawni'r 7 Nod Cenedlaethol ar gyfer Cymru drwy gymhwyso'r 5 Ffordd o Weithio.






Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hefyd yn cael ei lywio gan:

- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Cynllun y Gweithlu
- Y Strategaeth Ddigidol
- Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth.

Mae'r meysydd blaenoriaeth trosfwaol, sy'n sail i'r holl waith yn ymwneud ag eiddo, yn cynnwys:

- Y Strategaeth Cynnal a Chadw
- Strategaeth Swyddfeydd
- Masnacheiddio
- Cydymffurfiad Statudol
- Ynni/Rheoli Carbon/Datgarboneiddio
- Adolygu Gwarediadau ac Eiddo



Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hwn yn amlinellu'r ymagwedd tuag at brosiectau blaenoriaethol wrth iddynt ganolbwyntio ar ein hymrwymiad i ysgolion, tai fforddiadwy, lleihau carbon ac ailddatblygu canol tref Merthyr. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Rhaglen Gyfalaf a'r ffrydiau ariannu allanol sy'n cynnwys y prosiectau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt)
- Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Cynllunio Lleoedd Ysgol
- Darpariaeth Gofal Plant a Gydleolir
- Ysgolion Bro
- Gwaith Hygyrchedd
- Gwella Cyflwr Ysgolion
- Ynni Adnewyddadwy a Charbon-isel
- Adfywio Canol Tref Merthyr
- Cyfnewidfa Merthyr Newydd
- Seilwaith Trafnidiaeth
- Deuoli'r A465 - GPG

- Uwchgynllun Cyfarthfa
- Adfywio Taf Bargoed
- Datblygu Parc Tretomos
- Datblygu Canolfannau Dysgu yn y Gymdogaeth
- Glynmil
- Safle Hoover

- Cynllun Glan yr Afon
- Cyfleuster gofal ychwanegol
- Safleoedd Datblygu Preswyl/Cynllun Hunanadeiladu Cymru
- Adolygiad Mynwentydd
- Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored
- Gwella'r Stoc Chwarae Sefydlog
- Ysgubor Halen/Depo Newydd

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau ar Dudalen (ffigur 1) yn dangos y modd y mae'r blaenoriaethau hyn yn cefnogi'r rhai a gynhwyswyd yng Nghynllun Llesiant Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau hwn yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer eiddo yng nghyd-destun dylanwadau ac amcanion corfforaethol. At hynny, mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn cynnwys Cynllun Gweithredu a Thargedau Perfformiad a fydd yn caniatáu i berfformiad a chynnydd gael eu mesur a'u rheoli'n effeithiol.

## Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Mae cydnabyddiaeth gorfforaethol o bwysigrwydd defnyddio asedau eiddo i wireddu blaenoriaethau corfforaethol, yn allweddol i reoli asedau'n dda. Mae ymwreiddio hynny'n llawn yng ngweithrediad y Cyngor ar bob lefel yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun Rheoli Asedau dan sylw.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac mae'n gweithredu'r Pum Ffordd o Weithio yn ei Gynlluniau ar gyfer Rheoli Asedau. Mae ffocws yn cael ei roi ar gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd **hirdymor** y cymunedau, gan gynnwys sicrhau cartrefi ac ysgolion ar gyfer y dyfodol. Mae cynlluniau strategol ar waith i gynnal darpariaeth hirdymor ar gyfer mynwentydd, gwella bioamrywiaeth, a rheoli carbon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cydweithredu rhwng Adrannau'r Gwasanaetha a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn helpu i **atal** problemau cymdeithasol rhag datblygu trwy gydweithio i hyrwyddo Cynlluniau Datblygu gan gynnwys cyfleusterau ExtraCare a datblygiad yr hen Ganolfan Dysgu yn y Gymdogaeth i gefnogi aelodau bregus o'r gymuned. Rydyn ni'n cryfhau ein perthnasoedd gwaith â sefydliadau allanol er mwyn darparu cyfleusterau mwy

**integredig** ar gyfer y cymunedau, ac er mwyn atal problemau fel digartrefedd, tlodi tanwydd a cholli asedau hanesyddol.

Mae gwneud y penderfyniadau cywir ar gyfer rheoli asedau yn ddieithriad yn gofyn am fewnbwn gan amryw o randdeiliaid. Mae **cynnwys** y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth yn flaenoriaeth uchel a gwneir hynny trwy ymgynghoriadau statudol megis y broses gynllunio, neu ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion, a strategaethau megis Uwchgynllun Canol y Dref. Fel arall, fe weithredir trwy grwpiau ffocws, gan ddefnyddio er enghraifft, holiaduron staff i asesu'r galw am weithio ystwyth, neu drafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth ynghylch dyluniad eu hadeiladau. Mae cynnwys rhanddeiliaid yn hanfodol i lywio penderfyniadau priodol wrth reoli asedau ac mae'n rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau hwn.

Lle bynnag y bo modd, mae'r Cyngor yn archwilio cyfleoedd i **gydweithio** â'r gymuned, sefydliadau allanol, Llywodraeth Cymru, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a sefydliadau cyhoeddus eraill, er mwyn cyflawni prosiectau o fudd i'r gymuned ehangach. Enghraifft o hyn yw defnyddio tir ym meddiant y Cyngor i adeiladu fferm solar er mwyn cyflenwi ynni ar gyfer ysgol, a gwifren breifat i drosglwyddo unrhyw ynni dros ben i ysbyty cyfagos. Mae sawl enghraifft o gydweithio, ac yn bwysig iawn, mae'r Cyngor yn rhan o Grŵp Rheoli Asedau Cwm Taf sy'n cynnwys CBS Merthyr Tudful, CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBSRhCT, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n trafod cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio.

## Arweinyddiaeth



Ar lefel strategol, mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn cymryd cyfrifoldeb am Reoli Asedau. Bydd hyn yn cynnwys ymdrwytho'i hun yng ngweithgareddau'r Tîm Rheoli Corfforaethol a chadeirio'r Bwrdd Rheoli Asedau.

Ar lefel wleidyddol, mae'r Aelod Cabinet dros Adfywio Cymunedol, Diogelu'r Cyhoedd a Thai yn cymryd cyfrifoldeb am Reoli Asedau fel rhan o'i bortffolio. Mae hyn yn cynnwys bod yn aelod o'r Bwrdd Rheoli Asedau, ymwreiddio egwyddorion da ar gyfer rheoli asedau yng ngwaith y Cabinet a'r Cyngor, a chefnogi/herio swyddogion i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun hwn.


Ar lefel weithredol, mae'r Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau ac Ystadau) yn cymryd cyfrifoldeb am reolaeth weithredol y Cynllun Rheoli Asedau ac yn ymwreiddio'r egwyddorion yn llawn yng ngweithgareddau'r Adran Eiddo Corfforaethol a gweithgareddau ehangach y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cyflawni'r Camau Gweithredu, adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu, a chyfrannu at Ddangosyddion Perfformiad ac adrodd arnynt hwythau.

Yn ogystal â'r rhai a grybwyllwyd uchod, mae'r **Bwrdd Rheoli Asedau** yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adrannau canlynol: Dysgu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Eiddo Corfforaethol, Priffyrdd a Pheirianneg, Cynllunio, Parciau, Tai, Cyfrifeg ac Adfywio, Adnoddau Dynol a TGCh, yn ogystal â'r Rheolwr Masnachol. Bydd y Bwrdd yn cwrdd bob chwarter i adolygu strategaeth a phrosiectau mawr ac i ysgogi cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu a'r Dangosyddion Perfformiad.

Cafodd y Cynllun Rheoli Asedau ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu cyn iddo gael ei ddwyn gerbron y Cyngor ar gyfer ei fabwysiadu. Yn ogystal â hynny, bydd y Pwyllgor Craffu a'r

Cabinet yn cael copi o'r Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi diweddariad yn erbyn y Cynllun Gweithredu a'r Dangosyddion Perfformiad y cytunwyd arnynt.

## CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2023-2038



# 3. Datganiad Gweledigaeth


***Gweledigaeth y Cyngor yw bod y Portffolio Eiddo yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r gorfforaeth a gofynion y gwasanaeth, yn gwneud buddsoddiad priodol mewn prosiectau cyfalaf, yn cael ei gynnal yn effeithlon, yn gweithredu'n addas i'r diben, ac yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch.***

**Portffolio Asedau**

- Mae cyfanswm arwynebedd yr holl eiddo sydd o dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymestyn tua 888 hectar (2,195 erw). Mae'n cynnwys ystod amrywiol o eiddo, gan gynnwys hen Gynlluniau Adfer Tir, Ysgolion, Swyddfeydd, Depos, Cartrefi Gofal, Parciau, Adeiladau Masnachol, Mynwentydd a Seilwaith Priffyrdd, er nad yw'n cynnwys y Rhwydwaith Priffyrdd Mabwysiedig (a gwmpesir gan Gynllun Rheoli Asedau'r Priffyrdd - HAMP).
- Cyfanswm nifer yr asedau 840
- Cyfanswm nifer yr adeiladau 270
- Cyfanswm arwynebedd llawr yr adeiladau 155,374m2
- Cyfanswm Gwerth yr Asedau £167,619,590.34
- Cyfanswm ôl-groniad y gwaith cynnal a chadw £35,958,523

Sgoriau cyflwr 21/22: A = 10 %, B = 41%, C =42%, D = 7%

Dyrennir y Portffolio Eiddo i'r meysydd gwasanaeth priodol fel y'u manylir isod:




**Rôl y Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol**

Mae'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol yn cynnwys 2 Dîm: Rheoli Ystadau/Asedau a Rheoli Adeiladau/Prosiectau. Mae'r Tîm Rheoli Ystadau/Asedau yn delio â'r holl faterion

sy'n ymwneud ag Ystadau, gan gynnwys caffael a gwaredu eiddo, materion yn ymwneud â Landlordiaid a Thenantiaid ynghyd â Rheolaeth Strategol o'r Asedau Eiddo.

Mae'r Tîm Rheoli Adeiladau/Prosiectau yn rheoli'r holl ofynion cynnal a chadw adweitheddol, yn gweinyddu'r contractau cynnal a chadw cylchol, ac yn ymdrin â rheolaeth ynni. At hynny, mae gan y Tîm hwn rôl arolygol i adrodd ar gyflwr a sicrhau bod pob adeilad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth rheoli prosiect llawn ac yn cyflawni prosiectau adeiladu.

**Rôl y Meysydd Gwasanaeth**

- Sicrhau bod rhywun yn cael ei enwebu i weithredu fel Rheolwr Adeiladau ar gyfer pob mater sy'n ymwneud ag adeiladau.
- Sicrhau bod Rheolwyr Adeiladau'n cael hyfforddiant perthnasol pan gânt eu penodi.
- Cynnal cyllidebau a rheolaeth weithredol yr adeilad o ddydd i ddydd.
- Adrodd ar broblemau'n ymwneud â chynnal a chadw adeiladau mewn modd amserol i'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â gweithrediad arferol yr adeiladau.
- Rheoli contractwyr tra eu bod ar y safle a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun Rheoli Asbestos, gan gynnwys sicrhau bod copi caled o'r Gofrestr Asbestos ar gael bob amser.
- Gweithredu fel Daliwr Allweddi a bod yn gyfrifol am ddiogeledd yr adeilad.
- Bod yn gyfrifol am y defnydd a'r driniaeth o ynni.
- Sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dderbyniol.
- Cael cytundeb y Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol cyn ymrwymo adnoddau ar gyfer unrhyw newidiadau neu welliannau arfaethedig.
- Cysylltu â'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol ar gyfer pob symudiad/adleoliad yn ymwneud â swyddfeydd.
- Cysylltu â'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol ynghylch pob mater yn ymwneud â Landlordiaid a Thenantiaid.
- Cyflawni dyletswyddau dydd i ddydd yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

**Atgyweirio a Chynnal a Chadw**

Yr adrannau cyfrifol sy'n dal y Cyllidebau Refeniw ar gyfer Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau, ac ar hyn o bryd, maent yn rheoli'r cyllidebau hyn yn uniongyrchol. Caiff ceisiadau am gynnal a chadw adweitheddol eu gweinyddu drwy'r ddesg gymorth ganolog a rheolir contractau cylchol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth statudol gan Dîm Adeiladau'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol.

# 4. Prosiectau Mawr

Mae cyflawni prosiectau cyfalaf mawr yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer eiddo ac yn cefnogi'r amcanion corfforaethol ehangach. Ariennir llawer o'r prosiectau hyn yn uniongyrchol o'r Rhaglen Gyfalaf y manylir arni yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Mae'r prosiectau'n cael eu nodi fel blaenoriaethau gan adrannau gwasanaeth a'u trafod a'u cytuno'n gorfforaethol mewn gweithdai cyfalaf er mwyn eu blaenoriaethu. Mae'r CATC a'r Cynllun Rheoli Asedau hwn wedi'u halinio'n agos â'i gilydd. Isod, ceir detholiad o'r CATC sy'n amlinellu'r Rhaglen Gyfalaf ac yn helpu i ariannu'r prosiectau mawr canlynol:

**Rhaglen Cyfalaf**

| Disgrifiad | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 | 2026/27 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | | | | | |
| Addysg | 7,454 | 5,723 | 10,515 | 2,243 | 25,935 |
| Adfywiad Ffisegol | 5,750 | 1,950 | 1,750 | 1,750 | 11,200 |
| Seilwaith Trafnidiaeth | 7,372 | 4,288 | 3,881 | 3,881 | 19,422 |
| Tir ac Adeiladau | 3,368 | 750 | 450 | 450 | 5,018 |
| Amrywiol | 12,324 | 6,370 | 6,170 | 2,170 | 27,034 |
| **Cyfanswm** | **36,268** | **19,081** | **22,766** | **10,494** | **88,609** |
| **Ariennir gan** | | | | | |
| Benthyciadau | 31,055 | 16,976 | 20,661 | 8,389 | 77,081 |
| Grantiau Cyfalaf | 4,713 | 1,605 | 1,605 | 1,605 | 9,528 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 500 | 500 | 500 | 2,000 |
| **Cyfanswm** | **36,268** | **19,081** | **22,766** | **10,494** | **88,609** |

## Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (a elwid gynt yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif) yn meddu ar flaenoriaeth strategol hollbwysig i helpu'r Awdurdod Lleol gyflawni'r amcanion a nodir yn ei Strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau (RARS). Yn benodol, bydd yn datblygu'r amgylchedd ar gyfer dysgu ac yn sicrhau bod amgylcheddau addysgu a dysgu priodol ac ansawdd-uchel yn darparu digon o leoedd ysgol i bob plentyn a pherson ifanc.

**Band A 2014-2019**

Cwblhawyd gwaith adnewyddu mawr ar Ysgol Uwchradd Afon Taf ar gost oddeutu £12 miliwn o dan Fand A a chyflawnwyd y broses o drosglwyddo a chwblhau'r prosiect ym mis Awst 2017.

Cwblhawyd adeilad newydd Ysgol y Graig ar gost oddeutu £7 miliwn fel prosiect Band A olaf yr Awdurdod, a chyflawnwyd y broses o drosglwyddo a chwblhau'r prosiect ym mis Medi 2021. Roedd hyn yn cynnwys cydleoli darpariaeth cyn-ysgol Dechrau'n Deg i Blant Bach Trefechan o fewn yr ysgol newydd, a sicrhawyd hynny drwy ddefnyddio Cyllid Grant Cyfalaf LlC ar gyfer Cynnig Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar.

**Band B 2019-2026**

Cymeradwywyd y prosiectau canlynol i'w cynnwys ym Mand B o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor ym mis Ebrill 2019:

- prosiect adnewyddu sylweddol yn Ysgol Uwchradd Pen-y-dre 11-16;
- prosiect codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-16;
- prosiect codi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Goetre 3-11.
- 

**Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP) 2022-2031**

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd LlC ei fod yn ail-frandio Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor yn cynnwys y tri phrosiect Band B blaenorol i'w cwblhau erbyn 2026, a phrosiect adeiladu newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Arbennig Greenfield i'w gwblhau erbyn 2028. Mae hyn oll yn rhan o'r Rhaglen Amlinellol Strategol ddiweddaraf sy'n werth £173 miliwn.

Caiff ymarfer cwmpasu pellach ei gynnal i ystyried prosiectau eraill y gellid eu cyflawni rhwng 2028 a 2031. Bydd hynny'n llywio'r diweddariad i'r Rhaglen Amlinellol Strategol 9 mlynedd (2022-2031) a fydd yn barod erbyn mis Mawrth 2024.

Mae'r tri phrosiect Band B blaenorol ar gamau amrywiol o'r gwaith adeiladu a'r gwaith dylunio cyn-adeiladu fel y'u nodir isod.

Ym mis Awst 2022, dechreuodd Cam 1 y prosiect mawr o adnewyddu **Ysgol Uwchradd Pen-y-dre** dre i fod yr ysgol garbon-sero net - y gwaith cyntaf o'i fath yng Nghymru. Bwriedir dechrau Cam 2 ym mis Hydref 2023, a bwriedir cwblhau Cam 3, sef cam olaf y prosiect, mewn pryd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

Mae'r prosiect i godi adeilad newydd ar gyfer **Ysgol Gatholig 3-16 y Bendigaid Carlo Acutis** yn nesáu at derfyn y cyfnod dylunio. Bydd gwaith yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau'r haf 2023 i alluogi'r holl ddisgyblion oed uwchradd i gael eu haddysg ar Safle Cam 1 Isaf, Campws yr Esgob Hedley o fis Medi 2023 ymlaen. Bwriedir cwblhau'r prosiect hwn erbyn mis Medi 2026, pan fydd yr holl ddisgyblion o'r pedwar safle presennol (yr Esgob Hedley, St Aloysius, St Illtyd a'r Santes Fair) yn cael eu lleoli yn yr ysgol newydd ar Safle Cam 2 Uchaf, Campws presennol yr Esgob Hedley.

Mae prosiect codi adeilad newydd ar gyfer **Ysgol Gynradd Goetre,** ar y safle mwy sy'n cynnwys Pen-y-dre, bellach wedi dechrau'r cyfnod dylunio a chaiff tirfesuriadau eu cyflawni yn ystod gwanwyn/haf 2023 i lywio'r gwaith dylunio hwnnw. Mae'r prosiect, sy'n cynnwys cydleoli darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar a chynlluniau i ddatblygu cyfleusterau cymunedol megis llyfrgell, gardd a chegin, i'w gwblhau yn ystod gwanwyn/haf 2025.

Cafodd prosiect newydd i ddatblygu adeilad pwrpasol ar gyfer **Ysgol Arbennig Greenfield** ar safle Prosiect Heartlands, ei gymeradwyo i'w gynnwys yn Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor ar 23 Mawrth, a'r nod yw cwblhau'r adeilad newydd yn barod i'w feddiannu ym mis Medi 2028.

Mae'r prosiect hwn hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth LlC a sicrhawyd cyllid i ddarparu'r ysgol newydd hon yn amodol ar brosesau achos busnes. Mae ardal o faint addas wedi'i nodi fel rhan o safle Prosiect Heartlands, gan gynnwys datblygu'r adeilad treftadaeth a saif ar safle'r ysgol. Cynhelir astudiaethau dichonoldeb ar safle'r ysgol newydd arfaethedig yn 2024 a bydd hynny'n llywio'r broses ddylunio, ac ar ôl cwblhau'r rhain fe gynhelir Ymgynghoriad Statudol ar Drefniadaeth Ysgolion fel rhan o'r prosesau achos busnes sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

## Welsh-Medium Education



Mae'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ffrwd ariannu strategol ac allweddol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (LlC) i dargedu twf mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, yn unol ag uchelgeisiau Cymraeg 2050.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud cais llwyddiannus am arian cyfalaf LlC i gyflawni'r prosiect canlynol yn **Ysgol Rhyd Y Grug**; ad-drefnu mewnol i ddarparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion, lleoedd ychwanegol i ddisgyblion cyn-meithrin, Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) arbenigol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg, ac ystafell gymunedol benodol. Hefyd, mae cynlluniau i leoli Cylch Meithrin sef darpariaeth gofal i blant cyfrwng Cymraeg ar safle'r ysgol, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes LlC.

Ar hyn o bryd, mae cynllun ar droed i ymgorffori amcanion ehangach y prosiect, cytuno ar ffyrdd priodol o gyflawni'r ailfodelu yn raddol, a dechrau ar y gwaith mewn cyd-drefniant â'r ysgol. Y nod yw cwblhau'r holl waith erbyn mis Mawrth 2025.

Mae arian cyfalaf LlC hefyd wedi'i sicrhau i ailwampio'n rhannol un o'r adeiladau ysgol gynradd a adawyd yn wag fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, er mwyn ei hailddefnyddio fel **egin ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg** yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol. Ym mis Ionawr 2023, fel rhan o'r prosiect hwn, defnyddiodd yr Awdurdod arian cyfalaf mewnol i ailddefnyddio hen adeilad Meithrinfa Gurnos fel Cylch Meithrin i ddarparu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. At hynny, ym mis Ebrill 2023, cychwynnodd darpariaeth addysg feithrin ran-amser yno hefyd o'r enw Safle'r Gurnos, sef adran ategol o Ysgol Santes Tudful.

Bydd yr egin ysgol yn parhau i gydleoli â'r Cylch Meithrin tan tua 2026, pan fydd y gwaith o adnewyddu adeilad yr ysgol wag wedi'i gwblhau.

Mae astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas â **darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg** yn mynd rhagddi, a pharhau y mae'r trafodaethau gyda RhCT ac ALlau eraill i asesu opsiynau ymarferol ar gyfer sicrhau digon o leoedd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion Merthyr yn y tymor hir, boed hynny ym Merthyr neu y tu allan i'r Sir fel ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd y Cyngor angen mynediad i leoedd uwchradd ychwanegol yn y deng i bymtheng mlynedd nesaf, a nod yr astudiaeth yw cytuno ar restr fer o opsiynau ymarferol y gellir eu datblygu ymhellach cyn cytuno ar yr opsiwn a ffafrir. Mae gan hyn oblygiadau posibl i Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor rhwng nawr a 2036.

## Planning of School Places

Mae cynlluniau ar waith i droi ystafell athrawon yn ystafell ddosbarth yn **Ysgol Uwchradd Afon Taf** sar gyfer mis Medi 2023, gydag ystafelloedd staff yn cael eu darparu mewn mannau eraill o'r ysgol. Mae gwaith pellach ar y gweill i adnewyddu hen adeilad y Ganolfan Ieuenctid ar y safle er mwyn darparu ystafelloedd dosbarth ychwanegol erbyn mis Medi 2025 fel y gellir darparu digon o leoedd ysgol dros y tymor canolig i hir.

Mae cynigion i gydleoli **Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)** Cyfnod Allweddol 3 a 4 ar safle Tŷ Dysgu Dowlais, gan greu Uned Cyfeirio Disgyblion 3-16 oed, wedi'u cytuno a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn haf 2023 a'i gwblhau yn gynnar yn 2024.

Mae lleoedd yn **Ysgol Arbennig Greenfield** o dan bwysau sylweddol ar hyn o bryd ac mae opsiynau'n cael eu hasesu i sicrhau bod digon o leoedd yn cael eu darparu dros y tymor byr i ganolig hyd nes y gellir adeiladu ysgol newydd. Mae hyn yn cynnwys ystafell ddosbarth symudol newydd o fis Medi 2023 ac opsiynau ar gyfer darpariaeth ategol ôl-16 yn Nhŷ Homfray o fis Medi 2024.

Nod Strategaeth Addysg Feithrin y Cyngor yw darparu addysg feithrin ran-amser i bob plentyn tair oed ac addysg feithrin lawn-amser i bob plentyn pedair oed. Er mwyn cyflawni'r nod strategol hwn a sicrhau darpariaeth gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol, nododd yr Awdurdod Lleol y prosiectau canlynol sy'n effeithio ar ysgolion cyfrwng Saesneg i sicrhau eu bod yn cynnig darpariaeth feithrin lawn: estyniad i **ddosbarth meithrin Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa** ea gwblhawyd ym mis Medi 2021, ac estyniad i **ddosbarth meithrin Ysgol Gynradd Caedraw** i'w gwblhau ym mis Gorffennaf 2023.

Roedd angen darpariaeth feithrin ychwanegol hefyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac aethpwyd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio Grantiau Cyfalaf LlC i greu darpariaeth feithrin ychwanegol yn **Ysgol Santes Tudful** o fis Medi 2021, yn yr **egin ysgol cyfrwng Cymraeg** o 23 Medi, ac yn **Ysgol Rhyd Y Grug** o wanwyn 2025.

Mae adolygiad o leoedd ysgol a ddarperir dros y tymor canolig i'r tymor hir yn mynd rhagddo gyda'r nod o werthuso a oes digon o leoedd i fodloni'r galw ar draws pob sector, a chanfod atebion i unrhyw broblemau mewn perthynas â gornifer neu ddigonolrwydd. Bydd hyn yn parhau i lywio Cynllun Rheoli Asedau a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor lle bo angen.

## Darpariaeth Gofal Plant a Gydleolir

Mae nifer o brosiectau i gydleoli gofal plant y blynyddoedd cynnar ar safleoedd ysgol wedi'u cwblhau gan ddefnyddio Grantiau Cyfalaf Cynnig Gofal Plant LlC.

Mae'r rhain yn cynnwys cydleoli: Plant Bach Trefechan yn adeilad newydd Ysgol Gynradd y Graig (hydref 2021); darpariaeth cyn-ysgol Bedlinog o fewn Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog (gwanwyn 2022), a darpariaeth cyn-ysgol Dwylo Bach ar yr un safle ag Ysgol Gynradd Dowlais (gwanwyn 2023).

Mae lleoliad gofal plant y Cylch Meithrin yn hen Ysgol Feithrin y Gurnos hefyd wedi'i gydleoli ag egin ysgol feithrin Safle'r Gurnos, Ysgol Santes Tudful (gwanwyn 2023).

Fel y nodir yn yr adrannau uchod, mae cais ychwanegol am Grant Cyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno ac yn amodol ar gymeradwyaeth yr achos busnes. Y nod yw cefnogi cydleoliad y ddarpariaeth gofal plant ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn adeilad newydd Ysgol Gynradd Goetre, ynghyd â chynnal Cylch Meithrin yn Ysgol Rhyd y Grug. Bwriedir i'r ddau gynnig fod yn barod erbyn mis Mawrth 2025.

Mae potensial hefyd i ddarpariaeth gofal plant y Cylch Meithrin gael ei gydleoli yn Ysgol Santes Tudful erbyn mis Mawrth 2025, yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes pellach gan LlC.

## Ysgolion Bro

Dyrannodd LlC £386k i'r Cyngor ar gyfer Prosiectau Ysgolion Bro yn 2022/23 ac yn dilyn proses bidio, dyfarnwyd arian i wyth ysgol ar gyfer prosiectau a fydd yn cael eu cwblhau erbyn haf 2023.



Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys tair ystafell gymunedol bwrpasol, siop goffi gymunedol a chyfraniad at fws mini cymunedol, Big Bocs Bwyd gyda siop/canolfan gymunedol ychwanegol, llifoleuadau newydd, man chwarae amlddefnydd wedi'i adnewyddu gyda llifoleuadau newydd a chwrt tennis wedi'i ailwampio.

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi sicrhau cyllid ar gyfer chwe phrosiect yn ymwneud ag Ysgolion Bro rhwng 23/24 a 24/25, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol LlC. Mae hyn yn cynnwys prosiectau cymunedol ar gyfer Ysgol Gynradd Goetre ac Ysgol Rhyd y Grug fel rhan o'r prosiectau mwy a nodir uchod. Mae'r chwe phrosiect ychwanegol hyn hefyd yn cynnwys ystafell gymunedol bwrpasol arall, dau fan chwarae amlddefnydd newydd, ardal allanol wedi'i gorchuddio â chanopi a "heol heini" cymunedol.

## Gwaith Hygyrchedd, Deddf Cydraddoldeb 2010

2023/24 yw trydedd flwyddyn y Rhaglen Waith Cyfalaf Dreigl ar gyfer Hygyrchedd mewn Ysgolion. Mae gwaith addasu yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer ysgolion sydd angen gwella hygyrchedd i ddisgyblion ag anghenion symudedd. Mae'r gwaith hwn yn angenrheidiol er mwyn i ddisgyblion gael mynediad a pharhau i gael mynediad i le mewn ysgol briodol yn y brif ffrwd ac mae'n cynnwys: lifftiau, rampiau allanol a mewnol, drysau a ledwyd, toiledau hygyrch, cawod/ystafell newid sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, a gwaith addasu ar gyfer disgyblion â Nam ar eu Golwg. Mae blaengynlluniau'r Rhaglen yn cynnwys cydweithio â Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol yn y Maes Iechyd i gytuno ar flaenoriaethau gan gynnwys diogelu

adeiladau ysgol i'r dyfodol lle bo'n bosibl.

## Rhaglen Arolwg Cyflwr

Cytunwyd ar Raglen Arolwg Cyflwr cynhwysfawr a chyfannol ar gyfer pob ysgol ac adeilad addysg ac fe'i cynhelir dros 3 blynedd ariannol rhwng 2021 a 2024. Caiff ei chynnal fel rhan o'r Rhaglen Gorfforaethol 5 Mlynedd ehangach ar draws holl adeiladau'r Awdurdod Lleol rhwng 2021 a 2026. Mae'r arolygon o ysgolion/adeiladau addysg yn cynnwys asesiad o'u haddasrwydd ar gyfer dysgu mewn perthynas â'r adeiladau a'r amgylchedd o'u cwmpas yn ogystal ag asesiad o gyflwr yr eiddo.

Cytunwyd ar y modd y caiff adeiladau eu blaenoriaethu o fewn y Rhaglen trwy asesu blaenoriaethau strategol y Portffolio Dysgu ynghyd ag adeiladau sydd heb eu harolygu ers tro.

Mae'r Rhaglen Arolwg Cyflwr yn hanfodol i lywio Strategaeth Cynnal a Chadw barhaus ar gyfer adeiladau ysgol ac ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol mewn cynnal a chadw dros y tymor canolig a hir, gan gynnwys defnyddio grant Llywodraeth Cymru lle bo'n briodol.

## Ynni Adnewyddadwy a Charbon-isel

Wrth i faint y carbon deuocsid a ollyngir gan gymdeithas i atmosffer y ddaear gynyddu, felly hefyd y mae tymereddau byd-eang yn codi. Oni leiheir allyriadau $CO_2e$, bydd y ddaear yn troi'n fwyfwy cynnes. Mae'r cynnydd hwn yn nhymheredd y byd yn achosi i'n hinsawdd a'n planed newid. Mae'r newidiadau i'n hinsawdd yn cynnwys: hafau poethach a sychach, gaeafau cynhesach a gwlypach, digwyddiadau tywydd mwy eithafol a chynnydd yn lefel y môr. Mae hyn yn achosi: mwy o sychder a thanau gwyllt, stormydd cryfach, mwy o dywydd poeth, llifogydd, difrod i gwrelau, llai o eira a rhew, rhew parhaol yn dadmer, newidiadau yng nghylchoedd bywyd planhigion a newidiadau i ymfudiad a chylchoedd bywyd anifeiliaid.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030 mewn ymateb i'r newid hinsawdd.

Mae effeithiau newid hinsawdd eisoes yn siapio ein bywydau. Wrth i nwyon tŷ gwydr gynyddu, mae Merthyr Tudful wedi profi'r holl symptomau allweddol a ddaw wrth i'r hinsawdd newid o ganlyniad i waith dyn gan gynnwys patrymau tywydd anghyson, llygredd aer, tywydd poeth a newidiadau mewn bioamrywiaeth.

Mae hyn hefyd wedi dod â chostau economaidd a chymdeithasol yn eu sgil wrth i fusnesau a thrigolion brofi trafferthion megis difrod llifogydd ac amhariad i'w bywydau bob dydd.

Bydd Cyngor Merthyr Tudful yn cefnogi'r uchelgais hwn trwy gynnal nifer o fentrau a phrosiectau datgarboneiddio sy'n lleihau allyriadau carbon ei weithrediadau yn ogystal â'i effeithiau ar Newid Hinsawdd.

Rydyn ni eisoes wedi cychwyn ar y daith. Mae llawer o fentrau datgarboneiddio eisoes ar y gweill megis:

- gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau;
- cynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar y safle;
- treialu'r defnydd o gerbydau trydan a gosod goleuadau stryd ynni-effeithlon newydd;
- hyfforddi staff a gwella ymwybyddiaeth ynghylch Lleihau Carbon o fewn CBSMT.

Rydym hefyd yn gweithio gydag Arbenigwr Ynni i'w helpu i baratoi cynllun a map ffordd ar gyfer y Cyngor fel y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru chwarae'i ran i ddod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

Er mwyn cyflawni ein nod i fod yn Garbon Sero Net, mae angen i'r Cyngor leihau maint y carbon y mae'n ei allyrru a chynyddu maint y carbon y mae'n ei amsugno. Mae gan ein Portffolio Eiddo gyfraniad mawr i'w wneud tuag at y ddau nod hyn, o ystyried bod allyriadau o'n hadeiladau ar hyn o bryd yn cynrychioli cyfran fawr o gyfanswm allyriadau'r Cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi). At hynny, bydd angen mwy o dir i wrthbwyso'r carbon y tybir y byddwn yn dal ei ollwng erbyn 2030, sef ein dyddiad targed. Yn yr un modd, bydd eiddo yn chwarae rhan sylfaenol i'n helpu ni i gyflawni ein nodau carbon, gan y bydd angen adfer a newid ein dull o reoli'r tir sydd yn ein meddiant ar hyn o bryd.



Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Asedau hefyd yn cynnwys:

1) cynnal rhaglen dreigl o astudiaethau dichonoldeb ar draws ein hystâd er mwyn canfod cyfleoedd pellach i roi technolegau carbon-isel ar waith (h.y. pympiau gwres, paneli solar ffotofoltäig);
2) dylunio a chodi pob adeilad newydd i weithredu'n garbon-isel;
3) addasu adeiladau i gynnwys systemau gwres carbon-isel fel pympiau daear a gwres.

## Adfywio Canol Tref Merthyr

Bydd Cynllun Creu Lleoedd newydd ar gyfer Canol Tref Merthyr Tudful yn parhau i adeiladu ar gyflawniad sylweddol a chyson y prosiect dros y 18 mlynedd diwethaf, a bydd yn cefnogi'r Dref i ddod yn fasnachol hyfyw a hunangynhaliol. Yn ogystal â chreu lleoedd, mae trafnidiaeth yn ystyriaeth allweddol o'r Cynllun ac mae cyfres o'r prosiectau a nodwyd naill ai'n ymwneud â gwelliannau i drafnidiaeth neu'n gofyn am gyflawni addasiadau llawn i'r seilwaith trafnidiaeth. Mae'r Prosiectau Adfywio Ffisegol a nodwyd yn cynnwys Canolfan Siopa Santes Tudful, tir i'r de o'r Coleg, y YMCA, Safle Ysbyty Santes Tudful, yr Ysbyty Cyffredinol a datblygiadau menter gan gynnwys Howfields, JOL's a'r Theatre Royal.

Mae'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd yn uchelgeisiol ac yn hirdymor. Bydd y Cynllun yn parhau am y 15 mlynedd nesaf, ac mae'n meddu ar y potensial i drawsnewid Merthyr Tudful a'r rôl y mae'n ei chyflawni ar gyfer y Brifddinas-Ranbarth a'r bobl y mae'n

eu gwasanaethu. Mae cyflawni dau brosiect neilltuol yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun Creu Lleoedd. Y prosiectau hyn yw'r rhai mwyaf uchelgeisiol o ran effaith a byddent yn trawsnewid Merthyr Tudful a'r rôl y mae'n ei chyflawni ar hyn o bryd yn y Brifddinas-Ranbarth sef, Canolfan Siopa Santes Tudful/Maes y Clastir (safle presennol yr Orsaf Fysiau) a'r Orsaf Drenau (Coridor y Gyfnewidfa).

O ran Lliniaru Cerbydau Gelyniaethus yng Nghanol y Dref, bydd y Swyddfa Gartref yn edrych i'r posibilrwydd o gyflwyno'r DDYLETSWYDD AMDDIFFYN yn fuan o ganlyniad i ymosodiadau terfysgol ar draws y DU. Bydd y ddeddfwriaeth yn newid er mwyn gwella amddiffyniad a diogelwch y mannau cyhoeddus a'r lleoliadau eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Yng ngoleuni hyn, bydd CBS Merthyr Tudful yn bwrw ymlaen i gomisiynu ymgynghorwyr i adolygu seilwaith Canol y Dref er mwyn nodi pa fesurau sydd angen eu gweithredu. Bydd Merthyr Tudful yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner gan gynnwys Heddlu De Cymru a bydd yn adrodd ar bob datblygiad i'r Grŵp Diogelu ac Amddiffyn Parod.

## • Cyfnewidfa Fysiau Newydd Merthyr Tudful

Yn ddiweddar, fe lwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Gyfnewidfa Fysiau newydd ar gyfer Merthyr Tudful ar gost o £12 miliwn. Mae'r datblygiad hwn wedi gosod y meincnod ar gyfer seilwaith y drafnidiaeth werdd yng Nghymru. Lleolwyd yr adeilad newydd yn agos at Orsaf Reilffordd Merthyr Tudful ac mae'n cynnwys y rhwydwaith bysiau lleol a rhanbarthol gyda hyd at 520 o gerbydau'n gadael oddi yno bob dydd.

Mae cyllid ar gyfer y cynllun wedi dod oddi wrth Lywodraeth Cymru fel rhan o'i hymgyrch i sicrhau bod yr holl drafnidiaeth gyhoeddus yn drydanol erbyn 2028. Mae'r orsaf newydd wedi'i dylunio gyda chynaliadwyedd yn brif ffocws iddi. Mae'n rhedeg yn gyfan gwbl heb olew a nwy ac mae ganddi'r ddarpariaeth i wefru bysiau a thacsis trydan.

Mae'r prif adeilad deulawr yn cynnwys ffrâm ddur ac yn mesur 1,130 metr sgwâr. Er mwyn dathlu treftadaeth y dref, mae'n cynnwys to sinc sydd wedi'i ddylunio i ymdebygu i'r gwaith haearn eiconig a gaeodd ym 1928 yng Nghyfarthfa gerllaw.

Ar y llawr gwaelod, mae 11 stand mewnol yn rhoi'r modd i'r cyhoedd gyrraedd y cerbydau'n hawdd. Mae yna hefyd gyntedd cyhoeddus modern gyda goleuadau naturiol yn llifo drwy'r gwydr mawr ar ffrynt yr adeilad, lle mae seddi wedi'u gosod. Mae'r gofod yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr anabl gyda'r holl loriau naill ai'n fflat neu'n cynnwys ramp. Mae yna hefyd siop goffi a chiosg, yn ogystal â thoiledau cyhoeddus. Mae'r llawr uchaf yn cynnwys cyfleusterau bwyta a swyddfeydd ar gyfer Stagecoach, y prif gwmni bysiau yn Ne Cymru.

Y tu allan, mae tri stand a phedwar man gwefru ar gyfer tacsis trydan. Mae coed a llwyni wedi'u plannu gan greu man gwyrdd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a gosodwyd meinciau gwenithfaen yno hefyd i greu ardal fawr lle y gall pobl ymlacio.

## Seilwaith Trafnidiaeth

Ar ôl llwyddo i greu Cyfnewidfa Fysiau newydd ym Merthyr Tudful fel rhan o'r Uwchgynllun ar gyfer Canol y Dref, mae'r ffocws yn awr yn troi at yr Orsaf Reilffordd a'r cyfle i wella'r

porth trafnidiaeth allweddol hwnnw. Ochr yn ochr â darparu Cyfnewidfa sy'n gweithredu mor ddi-dor â phosibl rhwng y gwahanol fathau o drafnidiaeth, mae'r gobaith o wella'r cyswllt rhwng yr Orsaf Reilffordd a'r Stryd Fawr yn un o amcanion hygyrchedd strategol ac allweddol y Cyngor.

Yn cyd-fynd â'r gwelliannau i'r Gyfnewidfa Fysiau, mae gwaith wedi mynd rhagddo ar nifer o'r prif goridorau bysiau sy'n arwain at ganol y dref. Gwnaed gwelliannau i seilwaith y safleoedd bysiau yn 2021/22 ac mae ymdrechion parhaus ar waith i ddatblygu rhagor o welliannau yn y dyfodol, pan fydd cyllid ar gael.

Mae gwelliannau tebyg yn cael eu datblygu a'u cyflawni ar Rwydwaith Teithio Llesol y Cyngor sy'n cynnwys llwybrau cerdded a seiclo. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cynnal adolygiad ac ymgynghoriad ffurfiol o'r Map Rhwydwaith presennol, gyda'r bwriad o ddatblygu ac ehangu ei sgôp wrth ei gyflwyno er cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Sicrhawyd arian yn 2021/22 ar gyfer sawl cynllun ym Merthyr Tudful gan gynnwys y rhai yn Stryd Fictoria, Stryd Bethesda, Stryd y Llys ac Avenue de Clichy. Mae cynlluniau pellach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer cyflwyno cyllid ar gyfer gweithrediadau 2022/23.

## Deuoli'r A465 – GPG

Mae'r gwaith o ddeuoli'r A465 yn gynllun gwella ffordd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei gyflawni gan Future Valleys drwy Orchymyn Prynu Gorfodol. Mae Future Valleys bellach wedi meddiannu gwahanol rannau o dir rhwng Dowlais Uchaf a Hirwaun ac wedi gwneud y gwaith cychwynnol o glirio'r tir. Mae'r Cyngor wedi penodi asiant tir i gynnal trafodaethau ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud ag iawndal ar ei ran, a bydd y rhain yn cynnwys meddiannu tir, taliadau diswyddo, aflonyddwch, effaith niweidiol ac ardaloedd trwyddedu. Caiff yr holl gostau hyn eu talu gan Lywodraeth Cymru. Er y credwyd y byddai cyfreithwyr allanol hefyd yn cael eu penodi i weithredu ar ran y Cyngor, mae hyn bellach wedi'i adolygu ac mae cyfreithiwr mewnol y Cyngor wedi dweud y bydd mewn sefyllfa i ymdrin â'r trosglwyddiadau tir sydd eu hangen fel rhan o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol. Bydd cyfarpar nifer o ymgymerwyr statudol yn cael ei amharu fel rhan o'r cynllun ac maent yn gweithio gyda ni i ganfod llwybrau amgen. Mae yna ardaloedd ychwanegol o dir y tu allan i'r ardal GPG y gallai fod eu hangen ar Future Valleys ar gyfer cyrtiau dros dro, ac mae Asiant Tir y Cyngor yn delio â'r rhain wrth iddynt godi.

## Uwchgynllun Cyfarthfa

Mae Uwchgynllun Cyfarthfa yn ddogfen strategol a luniwyd ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Bydd yn datgelu pwysigrwydd byd-eang Merthyr Tudful o ran ei gorffennol diwydiannol, ac yn gweithio mewn cytgord â'r amgylchedd naturiol i drawsnewid Ardal Treftadaeth Cyfarthfa. Mae'r Uwchgynllun yn ganlyniad i ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd â'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid allweddol ym Merthyr Tudful dros gyfnod o 5 mis. Arweiniodd hyn at greu tair thema strategol sydd wedi esgor ar fwy na 70 o brosiectau gwahanol yn ymwneud â hanes a threftadaeth, yr amgylchedd naturiol a chreadigedd cyfoes. Bydd parc 100 hectar, a ffurfiwyd o amgylch cydlifiad yr afonydd Taf a Thaf Fechan, yn ychwanegu at y 65 hectar presennol i greu "Parc Cyfarthfa Mawr", a bydd yn cwmpasu rhai o'r asedau treftadaeth pwysicaf yr ardal gan gynnwys Castell Cyfarthfa, Gwaith Haearn a Ffwrnais

Cyfarthfa, Pont y Cafnau a Fferm y Pandy. Mae'r Uwchgynllun yn blaenoriaethu prosiectau sy'n ganolog i'w ethos a'i gyfanrwydd ("rhaid eu gwneud"), prosiectau a argymhellir yn gryf er mwyn i'r Cynllun gyrraedd ei lawn botensial ("dylid eu gwneud'), a phrosiectau a awgrymir i wella ac optimeiddio'r Cynllun ("gellir eu gwneud"). Mae hwn yn gynllun cyfannol a chynnil sydd wedi'i ffurfio i gyflawni newid trawsnewidiol dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae ei fanteision yn real ac yn ddiriaethol ac yn y pen draw, yn ddangosadwy. Gellir mynd i'r afael â'r effaith economaidd debygol o ddau safbwynt: yr effaith economaidd fwy traddodiadol a arweinir gan dwristiaeth ac a yrrir gan ymwelwyr, a'r swyddi a grëir a'r gwariant a gynyddir trwy gyflawni amryw o brosiectau cyfalaf.

## Adfywio Taf Bargoed

Cyflwynwyd amrywiaeth o raglenni rhwng 2006 – 2015 gan gynnwys Prosiect Cyrion a Phorth Bedlinog, Dadeni'r Cymoedd – Rhaglen Adfywio Taf Bargoed, Cynllun Adnewyddu Cymdogaeth Trelewis a Bedlinog, Gwelliannau i Gyfleusterau Amgylcheddol Parc Taf Bargoed a Chanolfan Copa Rock UK. Mae CBSMT wedi nodi bod angen creu strategaeth newydd a fyddai'n helpu i siapio Taf Bargoed fel lle y mae pobl eisiau byw, gweithio, buddsoddi ac ymweld ag ef gan alluogi trigolion a busnesau i gyflawni'u potensial. Mae'r Strategaeth wrthi'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd a nodwyd y prosiectau a gaiff eu cyflawni yn unol â hynny.

## Datblygu Parc Tretomos

Yn 2021, sefydlwyd "Cyfeillion Parc Tretomos" gan grŵp o drigolion gyda chefnogaeth Aelodau Lleol er mwyn ail-ganolbwyntio sylw ar y cyfleoedd datblygu cymunedol posibl ym Mharc Tretomos. Ar hyn o bryd, mae gan y Parc statws Baner Werdd ac mae cyfleusterau hamdden yn cael eu defnyddio'n helaeth gan Glwb Bowls Tretomos a Chlwb Tennis Merthyr Tudful sy'n prydlesu gofod o fewn y Parc. Mae'r Parc hefyd yn darparu man gwyrdd pwysig ar gyfer gweithgareddau hamdden a digwyddiadau i'r gymuned gyfan, yn enwedig i drigolion Twynyrodyn, Penyard a Chanol y Dref.

Ar ôl ymgynghori â'r gymuned leol, datblygodd Cyfeillion Parc Tretomos Ddogfen Weledigaeth ac mae'r Cynllun Datblygu Trosfwaol dilynol wedi'i greu ar gyfer y Parc. Bydd Grŵp Llywio sydd newydd ei ffurfio yn bwrw ymlaen â blaenoriaethau'r Cynllun, megis datblygu Pafiliwn y Clwb Bowlio i wella'i ddefnydd gan y gymuned, ymchwilio i opsiynau ar gyfer cyfleusterau lluniaeth, adnewyddu ac agor y toiledau cyhoeddus, ac ymchwilio i opsiynau ar gyfer cysylltu ardaloedd y ddau Barc.

## Datblygu Canolfan Dysgu yn y Gymdogaeth

Datblygwyd y prosiect hwn er mwyn diwallu anghenion llety pobl ifanc 16-24 oed, sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu sydd wedi bod yn y system ofal/yn blant sy'n derbyn gofal, ym Merthyr Tudful. Mae'r prosiect yn cysylltu â Thimau Cyflogadwyedd sy'n cynnig cymorth o ran hyfforddiant a chyflogaeth ac mae wedi adnewyddu adeilad anghymen sy'n eiddo i'r Cyngor gan greu llety sy'n cynnwys 5 uned un-gwely hunangynhwysol. Caiff y llety hwn ei ddefnyddio ar gyfer y cyfnodau ar ôl gadael gofal maeth neu ofal preswyl

gyda rhieni corfforaethol, gan gynnig cymorth di-dor i'r rhai sydd â phroblemau tai, gyda Darparwr Cymorth wedi'i leoli'n barhaol ar y safle. Mae'r prosiect arloesol hwn yn torri ar draws ystod o feysydd gwasanaeth i greu dyfodol disglair a chynaliadwy ar gyfer ein pobl ifanc sydd o dan anfantais. Gwneir hynny trwy ddarparu llety a chymorth ar eu cyfer fel y gallant fyw'n annibynnol. At hynny, fe gânt fynediad i hyfforddiant a chyflogadwyedd fel y gallant nid yn unig cyrraedd ond rhagori ar eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r defnydd presennol o adeilad y Ganolfan Ddysgu yng Nghymdogaeth y Gurnos yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi mynediad ieuenctid ac oedolion di-waith at hyfforddiant, gyda'r nod o gynyddu'u cyfleoedd cyflogaeth. Mae'r safle ar hyn o bryd yn cynnwys 4 adeilad, sy'n cynnig ystod o hyfforddiant galwedigaethol a dysgu trwy brofiad. Ceir gweithdai ar saernïaeth, plymwaith, metelwaith a dulliau adeiladu eraill. At hynny, ceir uned trin gwallt gydag offer salon gwallt proffesiynol, odyn crochenwyr a gweithdy serameg i enwi ond ychydig, ynghyd â swyddfeydd ar gyfer y staff a fflatiau sydd ar hyn o bryd yn wag.

Bydd y Cynllun Cyfalaf arfaethedig yn ceisio adnewyddu un adeilad (Bloc 2) a'i droi'n 5 fflat hunangynhwysol ac yn adleoli'r gweithdai presennol i weddill yr adeiladau, gan arwain at fân addasiadau a chaniatáu i ran o'r Ganolfan Ddysgu aros ar agor i'r bobl ifanc. Y bwriad yw creu Canolfan Llety unigryw lle mae gan bobl ifanc fynediad uniongyrchol at lety modern, diogel ac addas, gan ddarparu mynediad iddynt at hyfforddiant ar y safle a allai arwain at addysg uwch yn eu coleg lleol a/neu gyflogaeth yn y dyfodol. Mae manteision clir i hyrwyddo integreiddiad cymdeithasol y bobl ifanc hyn mewn modd sy'n eu hannog i gymryd rhan mewn addysg bellach neu gyflogaeth yn y dyfodol.

## Glynmill

Yn ddiweddar, daeth y Cyngor yn lesddaliwr ar Safle Teithwyr Glynmil er mwyn darparu lletyau addas ar gyfer y gymuned dan sylw. Mae adnoddau mewnol wedi'u clustnodi ar gyfer y ddarpariaeth  i gefnogi'r gymuned hon ac rydym yn archwilio i gyfleoedd ariannu ychwanegol fel y gallwn barhau i wella'r safle.

Yn Nhachwedd 2020, llofnododd CBSMT les newydd ar gyfer Glynmil, a oedd yn cynnwys cyfrifoldeb llawn am ei reolaeth. Fel rhan o'r newid hwn, penodwyd Rheolwr Safle newydd a chytunwyd ar gontract TUPE ar gyfer Warden i fyw ar y safle.

Mae'r safle wedi ymgymryd â newidiadau sylweddol oddi ar fis Tachwedd 2020, ac wedi cyflwyno sawl her i CBSMT. Fel rhan o'i ymgais i reoli newid, gwnaeth CBSMT gais i Lywodraeth Cymru am Grant Cyfalaf Safleoedd. Cyflwynwyd y prosiect mewn camau hylaw. Llwyddwyd i ganiatáu Cam Un y Prosiect ac ymgymerwyd â gwaith cychwynnol ar y safle rhwng Mawrth 2021 a Mehefin 2021. Roedd y gwaith a gwblhawyd yn cynnwys:

**Mesuryddion Trydan/Dŵr Deallus Newydd (Blaenoriaeth Uchel, Cam Un)**

Gosod 24 o fesuryddion trydan a dŵr deallus newydd ym mhob bloc sy'n cynnig cyfleustodau domestig i breswylwyr unigol. Mae'r mesuryddion deallus modern a chyfoes hyn yn cynnig trydan a dŵr sy'n ddiogel, yn cynnig gwerth am arian, yn hawdd i'w defnyddio gan breswylwyr, ac yn cynnig annibyniaeth iddynt ar sut i brynu

trydan a dŵr ar gyfer eu cartrefi. Yng Ngham 2, byddwn yn edrych ar fwy o adnoddau ynni gwyrdd ar gyfer lleiniau.

**Gosod Cysylltiadau Trydan Dwbl (Blaenoriaeth Uchel, Cam Un)**

Gosod cysylltiadau trydan dwbl newydd yn lle'r rhai sengl a hŷn presennol ar gyfer 24 o leiniau a ddefnyddir gan deuluoedd mwy sy'n cynnwys plant hŷn.

**Adnewyddu Neuadd Gymunedol (Blaenoriaeth Uchel, Cam Un)**

Datblygu'r neuadd gymunedol bresennol yng Nglynmil er mwyn defnyddio a datblygu gwasanaethau'r safle i'r eithaf ar gyfer y trigolion, ac er mwyn darparu man gwaith safonol ar gyfer y gweithwyr CBSMT yno. Byddai'r adnewyddiad yn cynnwys:

- caeadau trydan ar gyfer y ffenestri;
- system intercom ar gyfer y drysau;
- system wresogi newydd.

**Offer Torri Mannau Gwyrdd (Cam Un)**

Darparu offer fel y gall y Warden sicrhau mannau ardderchog yn yr awyr agored fel y gellir cynnal chwaraeon a gweithgareddau cymunedol, ac atal fermin.

Mae'r holl waith wedi'i gwblhau i safon uchel ac mae CBSMT wedi penderfynu defnyddio Contract Rheoli Prosiect Allanol i gwblhau'r Camau nesaf a fydd yn cynnwys gwaith adeiladu helaeth a cheisiadau cynllunio ar gyfer mannau gwyrdd ac addasiadau ffyrdd.



## Safle Hoover

Yn unol ag amcanion strategol y Cyngor ar gyfer Adfywio Safle Hoover, rydyn ni ar hyn o bryd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar gamau cynnar y broses o gaffael yr holl safle er mwyn ei adfywio a'i ddatblygu.

Mae darparu gorsaf newydd a chyfleuster parcio a theithio strategol fel rhan o'r strategaeth yn parhau i fod yn ddyhead gan y Cyngor. I'r perwyl hwn, ymgymerwyd â WelTAG Cam 1 i ganfod y problemau allweddol a phennu amcanion lefel-uchel. Mae gwaith datblygu pellach yn mynd rhagddo fel rhan o Raglen Metro Plus yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## Cynllun Glan yr Afon

Prosiect Glan yr Afon yw'r enw a roddir ar y cynigion i ailddatblygu hen safle Pwll Glo Ynysowen a dymchwel a chlirio tai teras y cyn-lowyr yn Strydoedd Taf a Chilgant gerllaw.

Gellir olrhain gwreiddiau'r prosiect hwn yn ôl i'r adeg pan gaewyd Pwll Glo Ynysowen ym 1989 a'r gwaith adferol a wnaed yn y 1990au gan Awdurdod Datblygu Cymru. Bryd hynny, cynigiwyd y dylid ymgymryd â chynllun adfywio a fyddai'n darparu 230 o dai newydd yn

bennaf, gyda safle ar gyfer ysgol newydd a chyfleoedd i gyflawni datblygiadau ategol.

Roedd Cam I yn cynnwys ysgol newydd sef Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen a agorwyd gan y diweddar Frenhines yn 2012.

Roedd Cam II yn cynnwys amddiffyniad rhag llifogydd, cyfleuster trosglwyddo gwastraff domestig newydd, a ffordd fynediad a phont ffordd newydd dros yr Afon Taf i gysylltu cymunedau Aber-fan ac Ynysowen. Roedd y ffordd fynediad newydd hefyd yn agor tir ar gyfer datblygiadau preswyl, ac mae rhan o'r tir hwnnw bellach wedi'i werthu a'i ddatblygu gan adeiladwr tai rhanbarthol. Mae ardaloedd pellach o dir datblygu ar gyfer defnydd preswyl a chymysg yn parhau, er bod angen codi rhan o'r tir er mwyn hwyluso'r elfen breswyl. Mae'r meysydd datblygu dan sylw yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddod o hyd i gyllid perthnasol.

Fel rhan o Gam III, cafodd 124 o dai a fflatiau eu caffael yn Strydoedd Taf a Chilgant er mwyn eu dymchwel a'u clirio. Yn hanesyddol, roedd y ddwy stryd hyn yn dueddol o gael llifogydd ac ystyriwyd nad oedd y tai yno'n ddiogel ar gyfer preswyliadau hirdymor. Yn ddiweddar, cwblhawyd y gwaith o ddymchwel pob eiddo ac eithrio Neuadd Rechabite. Bydd angen rhagor o waith i asesu hyfywedd y safle er mwyn pennu'i botensial ar gyfer datblygiadau hirdymor gan ei bod yn debygol y bydd angen gwaith peirianyddol sylweddol i godi'r tir i hwyluso unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

## Cyfleuster gofal ychwanegol



Mae'r prosiect hwn yn gydweithrediad rhwng gweithwyr yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Tai i ddatblygu cyfleuster ExtraCare ychwanegol i oedolion, gan gynnwys rhai ag anableddau. Bydd y model tai cynaliadwy hirdymor hwn yn cefnogi pobl i barhau'n annibynnol yn hirach ac yn atal neu'n oedi'r angen iddynt gael eu derbyn i ofal preswyl.

Bydd y Cynllun Tai yn cynnwys 60 o fflatiau unigol – cymysgedd o fflatiau 1 ystafell wely a 2 ystafell wely a fydd yn rhoi'r cyfle i gefnogi gofal cam-i-fyny a gofal cam-i-lawr gan alluogi parau i gael eu cartrefu gyda'i gilydd. Ar hyn o bryd, mae Llwyfandir Georgetown sef tir a gafodd ei adennill ger Parc Iechyd Keir Hardie, yn cael ei ystyried fel safle posibl ar gyfer y datblygiad hwn. Mae'r safle'n destun adfachiad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyllid grant blaenorol a roddwyd i adennill y tir.

## Safleoedd ar gyfer Datblygiadau Preswyl/ Cynllun Hunanadeiladu Cymru

Ar hyn o bryd, mae'r Adran Ystadau yn delio â nifer o wahanol safleoedd ar gyfer adeiladu llawer o dai gan gynnwys cynllun hunanadeiladu preifat, cynllun hunanadeiladu'r Cyngor a chynlluniau fforddiadwy gan gymdeithasau tai.

Dyma rai o'r safleoedd preswyl sylweddol sy'n cael eu dwyn ymlaen ar hyn o bryd:

Tir yn Nhwynyrodyn - cwblhawyd y gwerthiant yn ddiweddar ac mae'n destun elfen o adfachu sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru. Bydd y safle'n hwyluso datblygiad ar gyfer

126 o dai gan gynnwys 10% o unedau fforddiadwy. Caiff yr unedau eu cyflwyno fesul cam rhwng 2024 a 2026.

Clos Trefor - cafodd ei werthu yn amodol ar gontract ond mae prynwyr yn cael anhawster i sicrhau caniatâd cynllunio. Mae arolygon ecolegol yn cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Teras Haydn, Penydarren a Thwynygarreg, Treharris - rydyn ni'n gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Tai a CTMT sydd â diddordeb mewn caffael y safle ar gyfer unedau fforddiadwy. Ystyrir gwerthu oddi ar y farchnad gan ddefnyddio'r Protocol Trosglwyddo Tir gan fod y cynnig yn bodloni'r angen a nodwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol ac yn cwrdd ag amcanion strategol y Cyngor o ran yr angen am dai.

Heartlands, Dowlais - mae hwn yn gynllun a weithredir ar y cyd â Llywodraeth Cymru, sy'n edrych ar y potensial i ddatblygu preswylfeydd ar safle cyfunol. Mae angen adennill rhan o'r tir ac mae buddiant y Cyngor yn y tir yn destun adfachiad o 100% o blaid Llywodraeth Cymru. Mae'r asiantiaid, Savills, wedi bod yn adolygu'r eiddo ac wedi derbyn diddordeb yn y safle ar gyfer datblygiad preswyl ac maent yn awyddus i symud ymlaen â'u hymholiadau. Mae potensial i ddefnyddio rhan o'r safle ar gyfer darpariaeth addysgol fel rhan o brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd hefyd yn cael ei hyrwyddo. Mae gwaith technegol yn cael ei wneud ar hyn o bryd a fydd yn llywio'r Uwchgynllun cyn rhyddhau tir preswyl i'w werthu.

Mae Cynllun Hunanadeiladu Cymru yn fenter gan Lywodraeth Cymru a ariennir gan Fanc Datblygu Cymru, a'i nod yw cyflwyno tir cyhoeddus sy'n addas ar gyfer hunanadeiladu. Ei nod yw hwyluso'r gwaith o baratoi safleoedd, gan gynnwys gofynion seilwaith, cyn sicrhau bod y safleoedd hynny ar gael i'r cyhoedd. Mae'r model hefyd yn cefnogi unigolion yn ymarferol ac yn ariannol i wneud hunanadeiladu yn fwy hyfyw.

Mae Ymgynghorwyr wedi cael cyfarwyddyd i archwilio sawl eiddo sydd ym meddiant y Cyngor gyda'r bwriad o'u cynnwys yn y Cynllun hwn. Cafodd tri safle eu gosod ar Wefan Hunanadeiladu Cymru yn haf 2021 er mwyn cael amcan o'r diddordeb ynddynt. Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw ddiddordeb yn y safleoedd hyn, ac yna'n penderfynu ar y camau nesaf sydd eu hangen.

## Adolygu Mynwentydd

Ar hyn o bryd, mae ymarfer yn cael ei gynnal i edrych ar dir newydd a ellir ei ddefnyddio ar gyfer mynwentydd yn y dyfodol. Mae'r safleoedd presennol wedi'u hasesu i wneud y mwyaf o'r gofod sydd ar gael i ymestyn claddedigaethau ynddynt gyhyd â phosibl.

## Isadeiledd Gwyrdd, Mannau Agored a Bioamrywiaeth

<u>Ecoleg/Bioamrywiaeth</u>

Mae gan CBSMT gyfrifoldebau cyfreithiol o ran ecoleg a bioamrywiaeth o dan ystod o ddeddfwriaethau bywyd gwyllt a pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol. Dyma rai enghreifftiau:

- o Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- o Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)
- o Confensiwn Ramsar, 1976
- o Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Dyletswydd Adran 6
- o Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, 2021
- o Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2016-2031

Ymgymerir â'r dasg o reoli asedau (gan gynnwys adeiladau a daliadau tir) sy'n eiddo i CBSMT yn unol â'r arferion gorau a'r holl ddeddfwriaethau a pholisïau bywyd gwyllt perthnasol, gan gynnwys y rhai a restrir uchod.

Mabwysiadwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Merthyr Tudful 2019-2024 yn ffurfiol gan y Cyngor ar 29 Ionawr 2020. Mae gan y ddogfen hon ddau ddiben. Nid yn unig y mae'n disodli y ddogfen flaenorol sef Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Merthyr Tudful 2014-2019, ond mae hefyd yn cynrychioli'r Cynllun Dyletswydd A6, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1: Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Y Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Merthyr Tudful yn nodi'r mesurau a gymerwyd a'r rhai a gynlluniwyd gan CBSMT i gydymffurfio â Dyletswydd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae pob adran o'r Awdurdod Lleol wedi cyfrannu at y Cynllun hwn, gan gynnwys yr Adran Ystadau.



Ers ei fabwysiadu, mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Merthyr Tudful wedi cael dau adolygiad blynyddol sydd wedi'u dogfennu a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn CBSMT.

Dyma rai enghreifftiau lle byddai gweithgareddau sy'n ymwneud ag asedau'r Cyngor yn destun ystyriaethau o ran ecoleg a bioamrywiaeth:

- o Gwaith i adeiladau gan gynnwys ail-doi neu atgyweirio gorchudd to, adnewyddu/ailosod estyll ffasgia, estyll talcen a/neu focsys soffit, ac addasu gofodau llofft. Mae angen ystyried gweithgareddau fel hyn o ran effeithiau ar ystlumod yn clwydo ac adar yn gorffwys. Bydd Arolygon Ecolegol priodol yn cael eu cynnal a lle bo angen, bydd trwyddedau rhanddirymu yn cael eu sicrhau gan Gyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod gwaith yn cael ei gynnal o fewn y gyfraith.
- o Bydd unrhyw diroedd a glustnodwyd ar gyfer adeiladau newydd yn destun Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol er mwyn canfod y cyfyngiadau ecolegol, y mannau lle mae angen uwcharolwg ecolegol pellach, a'r mesurau lliniaru, digolledu a gwella a all fod eu hangen.
- o Rheoli cynefinoedd ar dir y Cyngor. Lle bo modd, bydd cynlluniau rheoli cynefinoedd yn caniatáu i diroedd gael eu rheoli mewn ffordd sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth. Lle bo angen plannu, defnyddir rhywogaethau brodorol sy'n briodol i'r ardal.
    - Enghraifft: Yn 2020, dewiswyd pum ardal gymharol fawr o dir ym meddiant CBSMT i ddod yn "safleoedd bioamrywiaeth" gan newid y modd y rheolir y glaswelltir – torri'n llai aml, torri'n ddiweddarach yn y flwyddyn a chael gwared

ar sgil-gynhyrchion. Mae'r drefn reoli hon wedi'i chynllunio, dros amser, i roi'r modd i ystod fwy amrywiol o rywogaethau ddod i'r amlwg. Yn 2021, ehangwyd y cynllun hwn i gynnwys naw safle bioamrywiaeth llai arall i'w rheoli yn yr un modd. Cynhelir arolwg blynyddol i ddangos y cynnydd mewn bioamrywiaeth.

- o Creu cynefin newydd o fewn ardaloedd sydd ar hyn o bryd heb nodweddion, e.e. ar safle adeiladau a ddymchwelwyd yn ddiweddar, neu ar ardaloedd ac iddynt loriau caled segur/diraddedig.
- o Mae'r effeithiau negyddol a gaiff golau artiffisial ar fioamrywiaeth yn ystod y nos (ALAN) wedi'u dogfennu'n dda (yn bennaf rhywogaethau nosol a chrepwswlaidd, e.e. ystlumod, adar ac infertebratau). Felly, mae angen ystyried yn ofalus natur y goleuadau allanol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn ogystal â'r rhai newydd a ddaw yn yr asedau sy'n eiddo i'r Cyngor - er mwyn osgoi, lliniaru a gwneud iawn am yr effeithiau negyddol hyn.

Yn gyffredinol, bydd lleihau ALAN yn helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth (yn unol â Dyletswydd Adran 6 y Cyngor o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae rhestr wirio ar gael wrth ystyried effeithiau goleuo ar fioamrywiaeth.

Atafaelu Carbon Naturiol

Mae cysylltiad rhwng colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd ac felly, gall defnyddio natur i liniaru hyn oll fod yn effeithiol.

Gall ein cynefinoedd naturiol yn y Fwrdeistref chwarae rhan fawr wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gan eu bod yn gallu storio meintiau sylweddol o garbon; er enghraifft, mewn priddoedd, gwaddodion a llystyfiant.

Gan gymryd yr enghraifft o blannu coed i storio carbon: gall hon fod yn un elfen fach y gellir ei defnyddio i helpu i gydbwyso'r hafaliad carbon.

Bydd coed yn storio carbon wrth iddynt dyfu, ond mae'n rhaid eu hamddiffyn yn y tymor hir. Fel arall, gall carbon gael ei ryddhau yn ôl i'r atmosffer yn ddiweddarach - gan symud y broblem ymlaen i'r dyfodol. Rhaid ymgymryd â rheolaeth weithredol o'r coetiroedd presennol er mwyn sicrhau gwytnwch y coed/y coetiroedd/y coedwigoedd wrth symud ymlaen (D.S. mae hyn yr un mor bwysig ag ehangu gorchudd y coetir trwy blannu). Mae amddiffyn coed rhag datblygiad yn fesur pwysig arall y gellir ei gymryd. Yn wir, mae llawer o gynefinoedd ar wahân i goed yn storio carbon (e.e. glaswelltir, gwlyptir), ac felly bydd dylunio datblygiad i gadw cynifer o gynefinoedd pwysig â phosibl hefyd yn cyfrannu. Ystyriaeth berthnasol arall yw clefyd coed ynn a nifer y coed a fydd yn marw neu'n cael eu tynnu yn y dyfodol agos. Yn y lle cyntaf, bydd angen plannu coed i gymryd lle'r colledion hyn.

Yn ogystal, rhaid plannu coed yn y mannau cywir. Rhaid cynllunio ac ystyried yn ofalus y modd y caiff mwy o goed eu plannu er mwyn osgoi colli cynefinoedd pwysig eraill.

Felly, mae angen cyfuniad o warchod neu wella'r cynefinoedd presennol a chreu rhai newydd.

O fewn asedau sy'n eiddo i'r Cyngor, bydd CBSMT yn ceisio, er enghraifft:

- o creu cynefinoedd gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol, gan gynnwys coetir llydanddail brodorol, prysgwydd, glaswelltir, rhostir ac ati, gan sicrhau bob amser bod rhywogaethau priodol yn cael eu defnyddio yn y mannau cywir;
- o gwarchod y cynefin lled-naturiol presennol, gan gynnwys, er enghraifft, coetir llydanddail brodorol, prysgwydd, glaswelltir, rhostir;
- o gwarchod ac adfer cynefin mawndir (D.S. ychydig iawn sy'n bodoli yn y Fwrdeistref ar hyn o bryd).

Rhoddwyd blaenoriaeth i rai ardaloedd bioamrywiol ledled y Fwrdeistref Sirol (6 mawr a 10 bach) a phrynwyd offer torri a chasglu newydd er mwyn sicrhau bod cynifer o flodau gwyllt â phosibl yn ymsefydlu ynddynt.

## Gwella'r Stoc Chwarae Sefydlog

Mae cyfalaf wedi'i ddyrannu i'r prosiect hwn er mwyn gwella'r stoc chwarae sefydlog. Mae rhestr flaenoriaeth wedi'i llunio yn seiliedig ar hyd oes yr offer ynghyd ag oedran ac addasrwydd y safle i'w ddatblygu.

Cwblhawyd y gwelliannau cychwynnol ym mis Mawrth 2022, gan gynnwys Cefn Coed (Parc Charlie), Twyn Carmel, Stryd Lewis Bedlinog, a Heol Glan-taf.



Ar ôl craffu ar y mater, cytunwyd y byddai'r Rhaglen Adnewyddu arfaethedig wreiddiol yn cymryd gormod o amser i'w chwblhau, a chafodd Rhaglen Gyfalaf Garlam ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022. Mae hyn yn golygu gwariant cyfalaf o £518,000 y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf.

## Ysgubor Halen/Depo Newydd

Mae Gwasanaethau'r Gymdogaeth wedi nodi bod angen safle ar gyfer ysgubor halen a all hefyd gynnwys depo rheng flaen i gymryd lle'r ddarpariaeth ym Mharc Cyfarthfa. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau Gwasanaethau'r Gymdogaeth.

# 5. Cynllun Gweithredu 2021 - 2026

## Pa gamau sydd eu hangen i sicrhau gwelliannau parhaus??

Mae'r Cynllun Gweithredu blaenorol wedi'i adolygu a chafodd y rhai nad oeddynt wedi'u cwblhau'n llawn eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu newydd. Yn ogystal â hynny, mae unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o waith ymgynghori mewnol, gofynion archwiliadau neu flaenoriaethau a nodwyd i gefnogi strategaethau a chynlluniau ehangach, wedi'u hychwanegu. Bydd y camau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli Asedau a byddant hefyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet ar sail flynyddol fel rhan o'r Adroddiad Diweddaraf ar Reoli Asedau.

Mae'r camau gweithredu i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer y dyfodol wedi'u manylu yn y Cynllun Gweithredu isod ac wedi'u codio mewn lliw yn ôl blaenoriaeth:

Coch = Blaenoriaeth Uchel. Mae'r camau hyn yn allweddol ar gyfer cyflawni blaenoriaethau a strategaethau corfforaethol ac/neu maent yn gritigol o ran amser.

Ambr = Blaenoriaeth Ganolig. Mae'r camau hyn yn bwysig ar gyfer rheoli asedau'n dda.

Gwyrdd = Blaenoriaeth Isel. Ar y cyfan, mae'r camau gweithredu hyn yn weithredol eu natur a/neu ac yn cynnig llai o risg na'r rhai â blaenoriaeth uchel a chanolig.

| | GWEITHRED | PERCHENNOG Y WEITHRED | YN CYNNWYS | AMSERLEN |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymgorffori ymhellach y pwysigrwydd o barhau â dull corfforaethol o reoli asedau er mwyn gwireddu'r manteision a ddaw drwy weithredu'n effeithlon ym mhob maes gwasanaeth. Cynnwys cyfranogiad cynnar gan adrannau technegol ym mhob prosiect sy'n ymwneud ag eiddo. | Hyrwyddwr Rheoli Asedau | Pawb | Yn parhau |
| 2 | Gweithredu Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni REFIT. | Peiriannydd Ynni | Adrannau sy'n dal eiddo | Cwblhawyd |
| 3 | Cynnal rhaglen dreigl o astudiaethau dichonoldeb i nodi cyfleoedd masnachol gan ddefnyddio neu wella ein portffolio eiddo. | Rheolwr Masnachol | Adrannau Eiddo Corfforaethol, Adfywio a'r rhai sy'n dal eiddo | Yn parhau |
| 4 | Nodi a datblygu unedau llety â chymorth mwy hirdymor ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth lluosog. | Swyddogion Tai | Adran Tai a GCT | 1 Ebrill 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Gweithredu argymhellion yr Adroddiad Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chynnal a Chadw. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Gwasanaethau Adeiladu) | Adran Eiddo Corfforaethol ac adrannau sy'n dal eiddo | 1 Ebrill 2023 |
| 6 | Ystyried darparu cyllidebau, naill ai i adrannau meddiannol neu ar sail gorfforaethol, er mwyn iddynt allu cwrdd â chostau rheoli tir/cynnal a chadw. Cynnal adolygiad cychwynnol o'r portffolio, ac eithrio ysgolion, i sefydlu'r manteision/ anfanteision. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau) | Adrannau Eiddo Corfforaethol, Cyfrifeg a'r rhai sy'n dal eiddo | 31 Mawrth 2024 |
| 7 | Rhoi ystyriaeth bellach i gost oes gyfan a'i hymgorffori ym mhob maes gwariant cyfalaf. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Gwasanaethau Adeiladu) | Pawb | Yn parhau |
| 8 | Parhau i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth gydag adrannau gweithredol. Cynlluniau Rheoli Asedau'r Gwasanaethau i fod yn eu lle ar gyfer Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdogaeth a CRPPH. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau) | Adrannau Gweithredol | Yn parhau |
| 9 | Gweithredu Gweithio Ystwyth. | Grŵp Adfer | Grŵp Adfer a'r holl staff | Cwblhawyd Cam 1 erbyn 31 Rhagfyr 2022,<br><br>Cam 2 i'w gadarnhau |
| 10 | Adolygu Data Perfformiad ar gyfer Rheoli Adeiladau yn rheolaidd, gan gynnwys costau rhedeg a chostau cynnal a chadw. Sefydlu proses ar gyfer casglu a monitro data priodol ac adrodd yn ei gylch. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau) | Adran Eiddo Corfforaethol a Chyfrifeg | Yn parhau |
| 11 | Mynd ar drywydd cyllid Salix ar gyfer cynlluniau ynni. | Peiriannydd Ynni | | Ebrill 2030 |
| 12 | Gosod Cofnodyddion Data Dŵr i nodi defnydd/gollyngiadau dŵr gormodol a lleihau'r defnydd o ddŵr (rhaglen 3 blynedd). | Peiriannydd Ynni | | Ebrill 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13 | Cynyddu nifer yr adeiladau sy'n gysylltiedig â'r System Rheoli Adeiladau Ganolog. | Peiriannydd Ynni | | Cam 1 wedi'i gwblhau, Cam 2 - 2030 (wrth i ysgolion newydd gael eu hadeiladu) |
| 14 | Sefydlu a Gosod Modiwl Gwe Systemslink i alluogi deiliaid cyllidebau a phenaethiaid i weld data am ynni a'i gostau yn well. | Peiriannydd Ynni | | Cwblhawyd |
| 15 | Cynyddu'r modd i gynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar adeiladau'r Cyngor i gyfrannu at Dargedau Datgarboneiddio. | Peiriannydd Ynni | | Cam 1 wedi'i gwblhau. Cam 2 - 2030 (caiff 6 gosodiad eu hôl-ffitio ar adeiladau presennol ac wrth i ysgolion newydd gael eu hadeiladu) |
| 16 | Cynnal rhaglen dreigl o astudiaethau dichonoldeb ar draws ein hystâd i ganfod cyfleoedd pellach i roi technolegau carbon-isel ar waith (h.y. pympiau gwres, paneli solar ffotofoltäig). | Peiriannydd Ynni | | Yn parhau tan 2030 |
| 17 | Paratoi a gweithredu Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan. | Rheolwr Masnachol | | Ebrill 2023 |
| 18 | Paratoi strategaeth hirdymor ar gyfer Mynwentydd | Rheolwr Gwasanaethau Stryd | | Awst 2023 |
| 19 | Ystyried rheolaeth risg mewn perthynas â rhywogaethau ymledol. | Rheolwr Gwasanaethau Stryd | Eiddo Corfforaethol, Parciau, Cynllunio a Chyfreithiol | Cwblhawyd. Bydd rheolaeth yn parhau |
| 20 | Ystyriaeth gorfforaethol i ddod ag eiddo adfeiliedig yn ôl i ddefnydd buddiol. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau) | Eiddo Corfforaethol, Cynllunio, Adfywio a Thai | Yn parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 21 | Adolygu'r dull o roi trwyddedau ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno at ddibenion digwyddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, yn ddiogel ac yn bodloni'r holl ofynion statudol. Mae prosesau, cyfrifoldebau a llywodraethiant yn ffurfio rhan o'r adolygiad hwn. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau) | Ystadau, Cynllunio Argyfwng, Iechyd yr Amgylchedd, Adfywio, Priffyrdd, Cynllunio a'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau | 31 Mawrth 2024 |
| 22 | Sicrhau bod gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u hymgorffori'n llawn ym mhob trafodiad eiddo. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau) | Eiddo Corfforaethol, Cynllunio a phob Rheolwr Prosiect Eiddo | Yn parhau |
| 23 | Cynnal Ymarfer Adolygu Eiddo i ganfod tir a allai fod yn addas ar gyfer plannu coed er mwyn gwella Bioamrywiaeth ac Atafaelu Carbon. Cam 1 i gynnwys adolygiad o ddata CNC yn erbyn perchnogaeth y Cyngor. | Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol (Rheoli Asedau) | Eiddo Corfforaethol, Cynllunio a Chefn Gwlad | 31 Mawrth 2024 |
| 24 | Paratoi a gweithredu Strategaeth y Rhaglen Cefnogi Tai. | Swyddogion Tai | Tai a GCT/<br><br>Strategaeth Dai | Cwblhawyd |
| 25 | Bydd y Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol yn darparu trosolwg o holl Brosiectau'r Cyngor sy'n ymwneud ag adeiladau a mannau cyhoeddus, gan sicrhau y caiff ystyriaethau eu rhoi i Ddiogelu, Trosedd ac Anhrefn wrth ymgymryd â phrosiectau o'r fath. | Pennaeth Gwasanaethau Amddiffyn a Diogelu | Pawb | Yn parhau |

# 6. Targedau a Dangosyddion Perfformiad

<u>**Sut byddwn ni'n mesur Perfformiad?**</u>

Er mwyn sicrhau bod gwelliannau ar gyfer rheoli asedau yn parhau, cytunwyd ar set o Ddangosyddion Perfformiad mewn meysydd blaenoriaeth ac fe'u nodir isod. Mae targedau wedi'u gosod yn unol ag amgylchiadau unigol Merthyr Tudful. Maent hefyd yn adlewyrchu'r rhai a nodir mewn strategaethau unigol gan gynnwys y Strategaeth Swyddfeydd, y Strategaeth Cynnal a Chadw, y Strategaeth Gwaredu, a'r Cynllun Rheoli Carbon. Bydd y Dangosyddion Perfformiad yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn flynyddol yn yr Adroddiad Diweddaraf ar Reoli Asedau.

Dyma rai o feysydd perfformiad ac iddynt flaenoriaeth ym Merthyr Tudful:

**Rhesymoli Ystadau/Gweithio Ystwyth.** Bydd y Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur arwynebedd llawr y swyddfa a feddiannir fesul person a'r gost fesul metr sgwâr o'r portffolio swyddfeydd.

**Cyflwr.** Mae angen lleihau cymaint â phosibl y rhan o'r portffolio sydd ar Radd Cyflwr C neu D. Mae Dangosydd Perfformiad i fesur cynnydd yn y maes hwn wedi'i gynnwys ac mae'n adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Cynnal a Chadw Corfforaethol.

**Cydymffurfiaeth Statudol.** Mae cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol yn ofyniad allweddol i gyflawni ein gweledigaeth o sicrhau bod y Portffolio Eiddo yn cael ei gynnal yn effeithlon, yn addas i'r diben, ac yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch. Oherwydd prinder staff yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r Archwiliadau Cydymffurfiaeth Statudol wedi'u cwblhau yn unol â'r targed o 100%. Mae angen atgyfnerthu ffocws yn ystod cyfnod y CRhA hwn i sicrhau bod yr archwiliadau'n cael eu cwblhau i leihau risgiau iechyd a diogelwch. Mae dangosyddion perfformiad ychwanegol wedi'u cynnwys mewn perthynas â "5 Mawr" y meysydd cydymffurfio sef Asbestos, Clefyd y Llengfilwyr, Risg Tân, Diogelwch Boeleri Nwy a Phrofion Trydanol.

**Derbyniadau Cyfalaf.** Mae targedau ar gyfer pris eiddo a werthwyd i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf wedi'u gosod ar £500,000 y flwyddyn. Mae'r ffigwr net hwn yn cynnwys gwaredu eiddo a ryddhawyd fel rhan o'r broses Adolygu Eiddo.

**Ynni.** Er mwyn rheoli'r defnydd o ynni yn effeithiol, mae targedau a dangosyddion perfformiad yn ymwneud â chyfanswm y carbon deuocsid a allyrrir gan ynni a ddefnyddir yn adeiladau'r Awdurdod Lleol bob blwyddyn, ynghyd â maint yr ynni a gynhyrchir drwy ffynonellau adnewyddadwy.

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER 2023-2028

| Manylion Dangosyddion Perfformiad | Data Meincnodi Merthyr 20/21 | Targed am y cyfnod 2023 - 2028 |
|---|---|---|
| Swyddfeydd a feddiannir fesul person | 8.7m2 y person | Lleihau i 5m2 y person. |
| Ardal Fewnol Gros yr Eiddo yng Nghyfradd Cyflwr C a D | 38,526m2 | Lleihad o 50% yn arwynebedd llawr yr eiddo yng Nghyflwr C a D. |
| Cydymffurfiaeth Statudol | 0% | Cwblhau 100% o archwiliadau'n ymwneud â chydymffurfiaeth statudol bob blwyddyn. |
| Cydymffurfiaeth Statudol y "5 Mawr" | Gwaelodlin i'w sefydlu | Cyflawni o leiaf 80% o gydymffurfiaeth mewn perthynas ag Asbestos, Clefyd y Llengfilwyr, Risg Tân, Archwiliad Boeler Nwy, Profion Trydanol. |
| Derbyniadau Cyfalaf | £848,206 y fl-wyddyn | Cwblhau gwarediadau gwerth £500,000 y flwyddyn. |
| Cyfanswm yr Ynni Adn-ewyddadwy a gynhyrchir gan adeiladau'r Awdurdod Lleol | 270, 782 kwh y flwyddyn (18-19) | Manylion i'w cadarnhau ond bydd yn cynnwys cynny-dd o flwyddyn i flwyddyn. |
| Cyfanswm y carbon deu-ocsid a allyrrir gan ynni a ddefnyddir yn adeiladau'r Awdurdod Lleol | 3819 tunnell y flwyddyn (18-19) | Gostyngiad o 15% dros 5 mlynedd |

